# Cynllunio a monitro gwneuthuriad celfi er mwyn cwrdd ag anghenion cynhyrchu

## Trosolwg

Mae'r safon hon a wnelo ag adnabod y gofynion ar gyfer gwneud celfi o ddadansoddiadau sgript yn fewnol neu yn allanol. Mae a wnelo â chynllunio a threfnu'r gofynion gwneud a monitro cynnydd.

Efallai bydd y safon hon yn addas ar gyfer rôl y Meistr Celfi.*

*Mae hwn yn derm cyffredin ac nid yn benodol i ryw.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. adnabod y gofynion ar gyfer celfi o ddadansoddiadau sgript
2. cysylltu gyda'r holl adrannau, cyflenwyr neu wneuthurwyr eraill yn ôl y gofyn i adnabod gofynion celfi ar gyfer pob golygfa
3. cyfiawnhau'r angen i gelfi gael eu gwneud neu eu cynhyrchu
4. dadansoddi ffynonellau gwybodaeth i adnabod gofynion gwneud
5. paratoi amcangyfrifon o'r deunyddiau, offer a chyfarpar ar gyfer gwneud celfi
6. adnabod nodweddion y deunyddiau a chadarnhau'r gofynion gyda phobl sy'n gwneud penderfyniadau
7. trefnu gwneuthuriad y celfi fel eu bod ar gael yn ôl y gofyn gan ganiatáu digon o amser ar gyfer unrhyw beth annisgwyl
8. cael gafael ar ddeunyddiau a gwneud trefniadau cyflenwi fel bod modd cwblhau'r gwneuthuriad o fewn yr amserlen gytunedig
9. adnabod y tasgau a'r sgiliau sy'n ofynnol er mwyn gwneud celfi a phenodi staff priodol i dasgau gwneud
10. cadarnhau ydy cyfleusterau gwneud ar gael a'u bod yn ddiogel
11. monitro ac adolygu gweithredoedd gwneud i gadarnhau bod nifer y celfi a'u hansawdd yn cwrdd â'r gofynion a'u bod yn cael eu cynhyrchu o fewn yr amserlen gytunedig
12. cofnodi a rhoi gwybodaeth monitro mewn ffolder er mwyn bod yn ffynhonnell wybodaeth i weithredoedd gwneud yn y dyfodol
13. defnyddio gwybodaeth fonitro er mwyn darparu adroddiadau cynnydd i bobl eraill sy'n gwneud penderfyniadau
14. adnabod elfennau sy'n cael effaith ar ansawdd, cynnyrch a'r amserlen gyfan a rhoi cynlluniau wrth gefn yn eu lle
15. cydymffurfio gyda deddfwriaeth, rheoliadau a phrotocoliau iechyd a diogelwch

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

1. dulliau o adnabod gofynion ar gyfer gwneud celfi o ddadansoddiadau sgript
2. meini prawf ar gyfer asesu'r angen i wneud celfi
3. gofynion ac amserlenni gwneud
4. ffynonellau gwybodaeth am gwmnïau gwneud a'u galluoedd
5. sut i baratoi amcangyfrifon deunyddiau, offer a chyfarpar
6. sut i gadw cofnodion ac adroddiadau cywir o'r celfi gaiff eu gwneud
7. sut i gynllunio ar gyfer pethau annisgwyl
8. sut i benderfynu ar y sgiliau sydd eu hangen i wneud celfi
9. y cyfleusterau gwneud gofynnol gan gynnwys eu nodweddion diogelwch
10. gwahanol ddulliau gwneud a sut i ddewis y dull mwyaf addas
11. sut i ddelio gydag elfennau sy'n cael effaith ar ansawdd, cynnyrch a'r amserlen
12. deddfwriaeth, rheoliadau a phrotocoliau iechyd a diogelwch perthnasol

SKSPRP3

Cynllunio a monitro gwneuthuriad celfi er mwyn cwrdd ag anghenion cynhyrchu

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | ScreenSkills |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 30 Maw 2022 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 30 Maw 2026 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | ScreenSkills |
| **RCU gwreiddiol** | SKSPRP3 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cyfryngau a chyfathrebu, Celfyddydau Perfformio, Celfyddydau, Cyfryngau a Chyhoeddi, Crefftau, y celfyddydau creadigol a dylunio, Pobl Broffesiynol Cyswllt y Cyfryngau |
| **Cyfres/Set** | Celfi ar gyfer Cynyrchiadau |
| **Geiriau Allweddol** | celfi; cynllunio celfi; monitro gwneuthuriad celfi; dadansoddiadau sgript; gofynion gwneud; costau; meistr celfi; |